Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Y broses o ddynodi

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr, sydd â dealltwriaeth dda o refferenda, sydd eisiau gwybod rhagor am y broses o ddynodi ar gyfer ymgyrchwyr arweiniol.

Cynnwys:


Cyflwyniad i ymgyrchwyr arweiniol

Sut y dynodir ymgyrchwyr arweiniol

Y cyfnod gwneud cais

Y cyfnod dynodi

Cyfnod terfynol yr ymgyrch

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Y broses o ddynodi

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig sydd eisiau gwybod rhagor am y broses o ddynodi prif grwpiau ymgyrchu.

## Mae'r ddogfen yn ymdrin a:

- Sut y dynodir prif grwpiau ymgyrchu?
- Y cyfnod gwneud cais
- Prosesau a chyfnod ddynodi
- Buddion a grant prif grwpiau ymgyrchu

## Dogfenni cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm
- Trosolwg o wariant refferendwm
- Telerau ac amodau grantiau ar gyfer prif grŵp ymgyrchu

## Ffurflenni ac esboniadau

- Cais ar gyfer statws prif grŵp ymgyrchu

2

# Crynodeb

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), gallwn ni benodi prif grwpiau ymgyrchu ar bob ochr mewn ymgyrch refferendwm.

Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i fod yn brif grwpiau ymgyrchu. Mae'r ddogfen hon yn gosod yr egwyddorion o ddynodi a mae'n rhoi trosolwg o broses benderfynnu'r dynodi.

# Beth yw prif grwpiau ymgyrchu?

Yn ystod refferendwm, gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i fod yn brif grwpiau ymgyrchu.

Mae un grŵp ymgyrchu (a elwir hefyd yn gorff dynodedig) yn cynrychioli pob ochr y drafodaeth refferendwm. Maen nhw'n gweithredu fel prif grŵp ymgyrchu ar ran y rhai hynny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

Mae prif grwpiau ymgyrchu yn cael rhai buddion penodol sydd uwchben ymgyrchwyr cofrestredig eraill. Er enghraifft, mae ganddyn nhw derfyn gwariant sy'n uwch na'r ymgyrchwyr cofrestredig eraill, a maen nhw'n derbyn grant oddi wrthyn ni.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau oddi wrth gyrff mantell a ffurfir gan grwpiau ymgyrchu sy'n cydweithio. Mae hyn oherwydd bod rhaid inni sicrhau bod prif grwpiau ymgyrchu  yn cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros bob canlyniad yn iawn.

# Sut y dynodir prif grwpiau ymgyrchu?

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae ymgyrchwyr cofrestredig yn gwneud cais inni, y Comisiwn Etholiadol, i fynd yn brif grwpiau ymgyrchu. Nesaf mae rhaid inni ddynodi'r ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r rhai hynny sy'n cefnogi eu canlyniad refferendwm dewisol orau.

Mae rhaid inni ddynodi prif grwpiau ymgyrchu ar gyfer dwy ochr y drafodaeth, neu beidio â dynodi o gwbl.


Felly, os ydyn ni'n ystyried nad yw un o'r ymgeiswyr yn cynrychioli'r rhai hynny sy'n cefnogi canlyniad yn iawn, allwn ni ddim dynodi prif grŵp ymgyrchu ar y naill ochr na'r llall.

4

## Trosolwg o ddynodi'r prif grŵp ymgyrchu

Mae'r siart isod yn dangos trosolwg o'r broses o ddynodi'r prif grŵp ymgyrchu, o ddechrau cyfnod y refferendwm i'r diwedd (diwrnod y refferendwm). Mae hyn yn cynnwys cyfnod gwneud cais, gyfnod dynodi a chyfnod ymgyrchu terfynol cyn y pôl.

Rydyn ni'n cyhoeddi amserlen ar gyfer pob refferendwm unigol, sy'n cynnwys dyddiadau'r cyfnod gwneud cais a'r cyfnod dynodi.




# Y cyfnod gwneud cais

Yn ystod y cyfnod gwneud cais, gall unrhyw ymgyrchwr refferendwm sydd wedi cofrestru gyda ni wneud cais i fod yn brif grŵp ymgyrchu.

**Pwysig**

Dim ond ymgyrchwyr cofrestredig sy'n gallu gwneud cais i fod yn brif grwpiau ymgyrchu.

## Pryd mae'r cyfnod gwneud cais yn cychwyn?

Fel arfer bydd y cyfnod gwneud cais ar gyfer prif grwpiau ymgyrchu yn agor ar ddiwrnod cyntaf cyfnod y refferendwm a chau 28 diwrnod yn ddiweddarach. Ar gyfer refferendwm benodol, gweler ein canllawiau sy'n benodol i refferenda os gwelwch yn dda, gan efallai bydd yr amserlen yn amrywio.

## Sut ydych chi'n gwneud cais i fod yn brif grŵp ymgyrchu

Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i fod yn brif grŵp ymgyrchu trwy anfon Cais ar gyfer statws prif grŵp ymgyrchu.

Bydd angen ichi ddarllen y ffurflen yn ofalus i sicrhau eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol inni. Er enghraifft, bydd angen ichi ddarparu:

- Manylion ynghylch y cyrff sy'n cefnogi eich cais
- Manylion ynghylch sut y byddwch chi'n sicrhau bod eich ymgyrch yn cyrraedd pleidleiswyr ar draws ardal r refferendwm
- Eich strategaeth ariannol
- Sut ydych chi'n bwriadu cynrychioli ymgyrchwyr eraill dros yr un canlyniad

Pan ydyn ni wedi gwneud ein penderfyniad, byddwn ni'n cyhoeddi pob cais, er lles tryloywder. Sut bynnag, fyddwn ni ddim yn cyhoeddi manylion cyswllt personol na gwybodaeth sensitif ynghylch eich cynllun a'ch strategaeth ymgyrchu.

# Y cyfnod dynodi

Yn ystod y cyfnod dynodi, rydyn ni'n asesu ymgeiswyr i benderfynnu a allwn ni ddynodi prif grwpiau ymgyrchu ar y ddwy ochr.

Mae rhaid inni wneud hyn o fewn 14 diwrnod o ddydiad cau'r ceisiadau.

## Sut y gwneir y penderfyniad dynodi?

Mae PPERA yn gosod y prawf mae rhaid inni ei osod i geisiadau. Rydyn ni'n defnyddio proses benderfynnu tri-cham i osod y prawf, fel a ddangosir isod. Mae hyn yn ein helpu i benderfynnu a yw pob ymgeisiwr yn gallu bod yn brif grŵp ymgyrchu a pha ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu am ganlyniadau'r refferendwm orau.

## Y broses benderfynnu tri-cham

Y camau yw:

1 A yw'r ymgeisiwr wedi rhoi digon o wybodaeth inni i'n galluogi i benderfynnu a ydyn nhnw'n gallu cynrychioli eu canlyniad refferendwm dewisol yn iawn?

Os nad yw un neu fwy o'r ymgeiswyr wedi darparu digon o wybodaeth, efallai byddwn ni'n cyfweld pob un o'r rhai hynny sy'n cael eu hystyried.

2 A yw'r ymgeisiwr yn cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad yn iawn?

Dyma'r profion statudol a osodir gan PPERA

3 Os oes mwy nag un ymgeisiwr ar gyfer pob ochr canlyniad y refferendwm, pa ymgeisiwr sy'n cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad i'r graddau mwyaf?

## Y profion statudol


O dan PPERA, mae rhaid inni osod profion statudol wrth ddynodi prif grwpiau ymgyrchu.

Mae rhaid inni ddynodi ar gyfer pob canlyniad neu ddim o gwbl. Allwn ni ddim dynodi prif grwpiau ymgyrchu os:

- nad oes ymgeiswyr dros ganlyniad, neu
- rydyn ni'n ystyried nad oes ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros ganlyniad yn iawn.

Os ydyn ni'n fodlon bod ymgeiswyr sy'n gallu cynrychioli pob canlyniad yn iawn, mae rhaid inni ddynodi.

## Trosolwg o'r broses penderfynnu dynodi



8

# Cyfnod y refferendwm

Yn ystod cyfnod y refferendwm, mae hawl i brif grwpiau ymgyrchu wario mwy ar eu hymgyrch nag ymgyrchwyr eraill.

Rydyn ni'n cyhoeddi callawiau sy'n benodol i refferenda a sy'n cynnwys terfynau gwariant ar gyfer prif grwpiau ymgyrchu, gan fod terfynau'n amrywio rhwng refferenda.

Hefyd mae gan prif grwpiau ymgyrchu fuddion eraill sydd ar gael iddyn nhw. Defnyddir y buddion hyn i hysbysu pleidleiswyr am y dadleuon.

Gweler y canllawiau dilynol i gael rhagor o wybodaeth:

- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm
- Trosolwg o wariant refferendwm

## Buddion prif grwpiau ymgyrchu

Y buddion ar gyfer prif grwpiau ymgyrchu yw:

- Terfyn gwariant sy'n uwch nag ymgyrchwyr cofredtredig eraill
- Dosbarthu heb dâl o wybodaeth i etholwyr
- Darllediadau ymgyrch refferendwm
- Defnydd heb dâl o rai ystafelloedd cyhoeddus penodol
- Grant a ariannir gan arian cyhoeddus, wedi'i osod gennym mi, y Comisiwn Etholiadol

Byddwn ni'n gweithio gyda'r prif grwpiau ymgyrchu i'w helpu gael mynediad i'r buddion hyn.

## Ar gyfert beth y gellir defyddio'r grant a ariannir gan arian cyhoeddus

Gellir defnyddio'r grant i dalu am y costau seilwaith sylfaenol sy'n gysylltiedig â rhedeg swyddfeydd yr ymgyrch yn ystod cyfnod y refferendwm.

Ni ellir ei ddefnyddio at bwrpasau ymgyhrchu.

Mae costau seilwaith yn cynnwys:

- Costau staff
- Costau rhentu adeiladau ac offer
- Costau meddalwedd a chaledwedd TG
- Gwasanaethau

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch yr hyn a gynhwysir a'r hyn na chynhwysir, gweler, os gwelwch yn dda, Telerau ac amodau grantiau ar gyfer prif grŵp ymgyrchu.

## Gwerth y grant

Rydyn ni'n gosod gwerth y grant, yn unol ag ardal ddaearyddol y refferendwm a hyd y cyfnod rheoleiddedig. Mae rhaid i bob gr□p ymgyrchu gael mynediad i'r un lefel o grant.

Cyhoeddir y lefel o grant sydd ar gael ar gyfer prif grwpiau ymgyrchu yn y canllawiau penodol ar gyfer pob refferendwm.

## Sut mae prif grwpiau ymgyrchu yn derbyn y grant?

Unwaith ein bod ni wedi dynodi prif grwpiau ymgyrchu, rydyn ni'n talu 30% y grant iddyn nhw. Wedyn byddwn ni'n talu rhandaliadau wrth iddyn nhw dynnu costau cymhwyso pellach.

# Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 0207 271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau – ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill
Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk